**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Rhian Bowen-Davies,
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

2 Mai 2025

Annwyl Rhian,

Craffu ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru): pryderon ynghylch y cyfnod ymgynghori

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 23 Ebrill, yn mynegi pryderon ynghylch y cyfnod ymgynghori ar gyfer Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) (y Bil). Trafododd y Pwyllgor eich llythyr yn ei gyfarfod ar 30 Ebrill.

Rydym yn cydnabod y gallai pwnc y Bil fod o ddiddordeb arbennig i bobl hŷn, ac rydym yn awyddus i roi digon o gyfle i bob parti a chanddo fuddiant ymgysylltu â'r broses graffu. Fel rydych chi'n cydnabod yn eich llythyr, mae'n rhaid i'r Pwyllgor reoli ei waith craffu ar y Bil o fewn cyfyngiadau'r amserlen a bennwyd gan y Pwyllgor Busnes. Mae gan y Pwyllgor 11 wythnos eistedd i ystyried y mater a chyflwyno adroddiad i'r Senedd, sydd yn unol â'r arfer safonol. Mae hyn yn golygu y bydd y cyfnod ymgynghori yn fyrrach nag a fyddai, er enghraifft, ar gyfer ymchwiliad polisi lle mae gan y Pwyllgor reolaeth dros faterion amserlennu.

Rydym yn cydnabod bod cyfnod ymgynghori o chwe wythnos yn debygol o godi heriau i'r rhai fydd am gyflwyno tystiolaeth. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i sicrhau bod y dystiolaeth hon ar gael mewn da bryd i'w phrofi gyda thystion, gan gynnwys Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, yn ystod sesiynau tystiolaeth lafar a gynhelir yn yr wythnosau nesaf.

Er bod y Pwyllgor yn gallu gofyn am estyniad i'r amserlen graffu, byddai gwneud hynny'n cael goblygiadau ar gyfer ei waith craffu ar Fil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

a’r Bil Llywodraethu Amgylcheddol, Egwyddorion Amgylcheddol a Thargedau Bioamrywiaeth sydd ar ddod.

Mae'r Pwyllgor wedi rhoi sylw i’r pryderon a godwyd gennych yn eich llythyr yn ei dystiolaeth i adolygiad y Pwyllgor Busnes o’r prosesau ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod. Mae copi o'r adroddiad ynghlwm er gwybodaeth.

O ran darparu opsiynau nad ydynt yn ddigidol i unigolion gyflwyno tystiolaeth, mae'r tîm Clercio bob amser yn hapus i weithio gydag unigolion i sicrhau eu bod yn gallu cyflwyno tystiolaeth yn eu dewis fformat.

Unwaith eto, diolch i chi am roi o’ch amser i ysgrifennu at y Pwyllgor.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu’n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.